# Llwybr Arfordir Cymru – Gwynedd

## Arolwg Busnes 2024

**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com

# Cynnwys


3 Cefndir a methodoleg

6 Proffiliau busnes

11 Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

16 Ansawdd y llwybr

19 Hyrwyddo'r llwybr

30 Casgliadau ac argymhellion

# Llwybr Arfordir Cymru - Gwynedd
## Cefndir a Methodoleg



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Cefndir a Methodoleg

## Prif nod yr arolwg hwn yw gwella dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i fanteisio i'r eithaf ar eu lleoliad a'r cyfleoedd a gyflwynir gan lwybrau pellter hir Cymru, sef Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro), Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

Yn gyffredinol, mae'r amcanion yn ymwneud â'r holl lwybrau pellter hir; fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fudd **Llwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd**.

## Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Nodi'r mathau o fusnesau sy'n gweithredu ar y llwybrau neu'n agos atynt.
- Deall y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau sy'n agos at y llwybrau.
- Asesu'r buddion y mae'r llwybrau'n eu rhoi i fusnesau, gan gwmpasu incwm uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir dros wahanol dymhorau.
- Gwerthuso lefel y cydweithio ymhlith busnesau ar hyd y llwybrau.
- Gofyn am farn ar faterion megis argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, gwelededd, hygyrchedd, arwyddion, marchnata, cefnogaeth, ac unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.
- Archwilio'r diddordeb a'r gefnogaeth ar gyfer sefydlu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.
- Hwyluso cymhariaeth ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd ar yr un pwnc lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol.



Cynhaliwyd yr arolwg hwn drwy gyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynhwysol ac yn hygyrch, darparwyd opsiwn ar-lein hefyd.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i fusnesau naill ai ystyried eu hunain yn agos at un o'r llwybrau pellter hir (o fewn pellter cerdded neu daith car fer) neu ddatgan eu manteision busnes o un o'r llwybrau mewn rhyw ffordd.

Ar y cyfan, roedd ychydig dros fil o fusnesau yn rhan o'r arolwg. Roedd **147** ohonynt yng Ngwynedd ac fe'u neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, ar y sail mai dyna oedd eu llwybr agosaf neu'r un y cawsant y budd mwyaf ohono. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y busnesau hyn yn unig.

I gael manylion llawn y fethodoleg, gweler Arolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol 2024 (adroddiad cyffredinol).

# Canllaw i'r adroddiad hwn

## Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn fel rhifau cyfan er hwylustod darllen a dehongli. Bydd talgrynnu yn digwydd yng ngham olaf y cyfrifiad er mwyn sicrhau'r cywirdeb gorau posibl. Felly, pan gyflwynir canlyniadau fel % positif, % niwtral neu % negatif, efallai y bydd achosion lle na fydd y canlyniadau'n rhoi cyfanswm o 100%. Ni ddylai'r gwahaniaethau fyth amrywio yn ôl +/-1% pwynt.

## Meintiau sylfaen

Sylwch, y meintiau sylfaen sydd wedi'u cynnwys yw cyfanswm y bobl a ymatebodd i gwestiwn penodol. Gan nad yw pawb wedi ateb pob cwestiwn, gall y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg, sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd ac a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (147).

## Diffiniad o lwybr 'a neilltuwyd'

Ar ôl ateb cyfres o gwestiynau sgrinio i bennu agosatrwydd (S02a, S02b) a phwysigrwydd llwybrau i fusnesau unigol (S03, C01 a C02), neilltuwyd llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i weddill cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar eu llwybr 'penodedig'. Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at neu'n elwa o fwy nag un llwybr, cawsant eu neilltuo i'r un a) a oedd yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o werthiannau/trosiant neu b) y maent yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes.

## Cymhariaeth â gwerthoedd 'cyfanswm'

Yn yr adroddiad hwn, mae canlyniadau'r rhai sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd ac sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru yn cael eu cymharu â'r ffigurau cyfartalog o'r sampl gyfan o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, waeth beth fo lleoliad y busnes. Mae'r cyfartaledd cyfun wedi'i labelu fel "Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)" yn y siartiau cymharu. Lle mae ffigurau'n sylweddol uwch na'r cyfanswm ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol, bydd saeth liw yn y siart yn dangos a yw hyn yn sylweddol uwch neu is. Os nad oes saeth, nid yw'r ffigur hwn yn sylweddol wahanol i'r cyfanswm a dylid ei drin yn ofalus. Lle bernir bod gwahaniaethau mawr yn ddi-nod, mae'n debygol bod hyn oherwydd maint sylfaen gwahanol y ddwy sampl.

**Sylwch – mae Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi'i ddosbarthu fel Llwybr Cenedlaethol ond mae hefyd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Drwy gydol yr adroddiad hwn, wrth gyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru (cyfanswm), rydym yn cyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro.**


# Llwybr Arfordir Cymru - Gwynedd
## Proffiliau Busnes




# Proffiliau busnes

Roedd y 147 o fusnesau yn rhanbarth Gwynedd yn cynrychioli ystod o sectorau, gyda 58% yn y sectorau llety neu fanwerthu. Mae 12% arall yn gweithio yn y sector lletygarwch ac arlwyo. Yn gyffredinol, mae 86% o fusnesau yn y sector preifat.

## Sector




## Math o fusnes





**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(147). **C05B.** Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes / sefydliad orau? **C01.** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch busnes neu sefydliad orau?


# Manylion busnes

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau Gwynedd yn cyflogi llai na 50 aelod o staff (90%). Microfusnesau gyda gweithlu o hyd at naw o weithwyr yw 59% o fusnesau Gwynedd. Mae traean arall yn fusnesau bach gyda rhwng 10 a 49 o weithwyr (31%). Hefyd, mae gan 50% o fusnesau drosiant o £300,000 neu lai. Dim ond 9% sydd â throsiant o dros £1 miliwn.

## Maint y busnes




## Trosiant





**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(147) C07A/B. Gan gynnwys eich hun, faint o staff llawn amser a rhan amser parhaol a gyflogir gan eich busnes/sefydliad? **C02**. Beth oedd trosiant bras eich busnes (neu werth gwerthiant) yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?


# Manylion busnes

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn rhanbarth Gwynedd (77%) yn gweithredu o un lleoliad yng Nghymru, ac mae gan 17% arall eiddo lluosog yng Nghymru. Ymhellach, mae gan lawer o fusnesau hanes hir o weithio: mae 49% ohonynt wedi eu sefydlu ers 20+ mlynedd, tra bod 5% wedi agor o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae 46% wedi gweithredu rhwng tair ac 19 mlynedd.

## Nifer y safleoedd




## Daliadaeth y busnes





**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(147). **Co6.** A yw eich busnes/sefydliad yn gweithredu o un lleoliad neu eiddo, neu leoliadau neu adeiladau lluosog? **Co4.** Oddeutu pa mor hir mae eich busnes/sefydliad wedi bod yn gweithredu o'r lleoliad hwn?


# Manylion busnes

Mae 74% o fusnesau yn rhanbarth Gwynedd ar agor trwy gydol y flwyddyn o gymharu ag 82% o fusnesau Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm). Mae 39% o fusnesau yn fwyaf tebygol o gyrraedd uchafbwynt yn ystod misoedd yr haf, tra bod 23% arall yn nodi nad yw eu busnes yn dymhorol o gwbl.

## Busnes ar agor drwy'r flwyddyn




## Tymor brig




**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru)(147). **C09a.** Ydy'ch busnes/sefydliad ar agor drwy'r flwyddyn? **C09B**. A oes yna dymor neu amser penodol o'r flwyddyn pryd y mae'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

⬇⬆ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)


# Llwybr Arfordir Cymru - Gwynedd
## Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau



# Manylion busnes – llwybr benodol

Mae 49% o fusnesau Gwynedd yn ystyried bod y llwybr yn 'bwysig' i lwyddiant eu busnes (o gymharu â 51% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol), gyda 12% yn dweud ei fod yn bwysig iawn, ychydig yn is na'r 17% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol. Mewn cyferbyniad, dywed 33% nad yw'r llwybr o fudd i lwyddiant eu busnes o gwbl.

**Pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnesau**





**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664) Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (147).
**S03**. A yw eich busnes yn gweithgynhyrchu, gwerthu neu gyflenwi unrhyw gynhyrchion neu wasanaethau i bobl sy'n defnyddio neu'n ymweld ag unrhyw un o'r llwybrau cerdded, neu'n cael unrhyw fudd o fodolaeth y llwybr? **C02**. Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant eich busnes?

# Manylion busnes – llwybr benodol


Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynhyrchu hyd at 10% o werthiant/trosiant i 57% o fusnesau Gwynedd. Dywed 17% arall fod y llwybr yn cynhyrchu 11-25% o'u gwerthiant/trosiant.

**Canran y gwerthiannau/trosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr / bodolaeth y llwybr**




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru ac sy'n gweithredu yng Ngwynedd sy'n nodi bod y llwybr yn bwysig i'w fusnes (99) **C03.** Pa ganran o'ch gwerthiant neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr neu y gellir ei phriodoli i'w fodolaeth mewn rhyw ffordd? *RHYBUDD – maint sylfaen isel

# Manteision y llwybr i fusnesau




Mae 42% o fusnesau yn rhanbarth Gwynedd yn cytuno bod presenoldeb y llwybr wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr i'w busnes, gyda 29% arall yn nodi ei fod wedi bod o fudd i'w trosiant.

I 9% o fusnesau, fe helpodd i sicrhau cyflogaeth i aelodau staff. Eto i gyd, nododd cyfran lai o fusnesau y manteision hyn na chyfartaledd Llwybr Arfordir Cymru. Dylid nodi nad yw'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol.


Fodd bynnag, nid yw'r llwybr wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i 49% o fusnesau.

**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (147) C24a. Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi arwain at neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes neu sefydliad?

# Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Mae 75% o fusnesau Gwynedd yn teimlo na fydd y llwybr yn dod yn bwysicach i'w llwyddiant. Fodd bynnag, mae 21% yn teimlo y **bydd** yn dod yn bwysicach. O'r 31 busnes hyn, roedd llawer yn meddwl mai'r prif reswm am hyn yw'r cynnydd posibl mewn twristiaeth o ganlyniad i hyrwyddo'r llwybr.

## Newid ym mhwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnes




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (147) **C25a.** A ydych yn ystyried y bydd unrhyw newid yn y dyfodol ym mhwysigrwydd Llwybr Arfordir Cymru i lwyddiant eich busnes/sefydliad? **Sylfaen:** Lle y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach (31) **C25b.** Beth yw'r rheswm dros hynny?


# Llwybr Arfordir Cymru - Gwynedd
## Ansawdd y llwybr



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Canfyddiadau o agweddau o’r llwybr


Cyflwynwyd rhestr o chwe agwedd i bob busnes a gofynnwyd iddynt raddio pob un. O'r holl agweddau a gafodd eu graddio, mae busnesau ar eu mwyaf cadarnhaol gyda chynnal a chadw dodrefn y llwybr (48% yn dda / da iawn) ac arwyddion (40% yn dda / da iawn). Mewn cyferbyniad, maent er eu lleiaf cadarnhaol ynghylch hygyrchedd y llwybr (13% yn da / da iawn). Fodd bynnag, roedd rhwng 20% a 37% o fusnesau yn ansicr sut i ateb. Gallai hyn fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth oherwydd nad yw perchnogion busnes wedi defnyddio'r llwybr.




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (147) **C20**. Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? *Mae’r sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad oherwydd bod ymatebion ‘ddim yn gwybod’ wedi’u dileu. Ni ddangosir labeli data <5%

# Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr

Wrth eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod', mae'r graddau o ran cynnal a chadw dodrefn y llwybr yn parhau i fod fwyaf cadarnhaol (69% yn dda / da iawn), ac yna arwyddion, gyda 50% o'r rhai a oedd yn ymwybodol yn graddio hyn yn dda / da iawn. Yn anffodus, mae anfodlonrwydd â hygyrchedd yn uwch, gyda 57% yn nodi gwael / gwael iawn o gymharu â 37% gydag ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u cynnwys.





**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (147) **C20**. Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? *Mae'r sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad oherwydd bod ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u dileu. Ni ddangosir labeli data <5%


# Llwybr Arfordir Cymru - Gwynedd
Hyrwyddo'r llwybr



# Ymwybyddiaeth Brandio

Mae gan 69% o fusnesau yn rhanbarth Gwynedd o leiaf beth ymwybyddiaeth o frandio'r llwybr, gyda 20% o fusnesau yn datgan eu bod yn 'ymwybodol iawn'. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r ymatebwyr hynny ddisgrifio'r logo, ni chafodd pob un y manylion yn gywir:  Dywedodd 40% yn gywir fod y logo yn las, dywedodd 24% ei fod yn felyn, a dywedodd 10% ei fod yn wyn, ond dim ond 4% a ddywedodd yn gywir fod y logo yn cynrychioli cragen. Hefyd, ni allai 36% ohonynt gofio'r logo.








**Sylfaen**: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (147) **C10.** I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo? **Sylfaen:** Pob ymatebydd sy'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo (101) **C11.** Sut byddech chi'n disgrifio brandio (h.y. logo) Llwybr Arfordir Cymru?


# Ymwybyddiaeth hysbysebu

Mae 36% o fusnesau yn rhanbarth Gwynedd wedi gweld peth cyhoeddusrwydd neu hysbysebu yn ymwneud â'r llwybr dros y 12 mis diwethaf. I'r 53 busnes hynny sydd wedi gweld rhai, y prif ffynonellau yw Facebook (34%), teledu (26%) ac Instagram (17%).

## Y % a welodd cyhoeddusrwydd/hysbysebu




## Lle gwelwyd cyhoeddusrwydd/hysbysebu




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (147) **C12.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru? **Sylfaen:** Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (53) **C13.** A allwch ddweud wrthyf ble neu sut yr ydych wedi gweld cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos

# Canfyddiadau am hysbysebu

Gofynnwyd i bob busnes yng Ngwynedd sydd wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru roi adborth ar amlder ac effeithiolrwydd (o ran denu ymwelwyr/defnyddwyr a bod o fudd i lwyddiant busnesau yn y dyfodol). Mae 72% yng Ngwynedd yn teimlo bod amlder hysbysebu o leiaf yn weddol (o gymharu â chyfanswm o 76%). Mae 66% o'r farn bod 'effeithiolrwydd' cyhoeddusrwydd diweddar i ddenu defnyddwyr yn 'dda' neu'n 'weddol' (gostyngiad sylweddol o 81% ar gyfer y cyfanswm). Yn ogystal, mae 51% o'r farn bod budd llwyddiant eu busnes yn y dyfodol yn dda / yn weddol o gymharu â chyfanswm o 64%.

**"Sut fyddech chi'n graddio'r cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth rydych chi wedi'u gweld neu eu clywed am y llwybr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran…?"**

| | Da | Gweddol | Gwael | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| **Amlder** | 30% (cyfanswm o 35%) | 42% (cyfanswm o 41%) | 23% (cyfanswm o 18%) | 6% (cyfanswm o 5%) |
| **Effeithiolrwydd o ran denu ymwelwyr i'r llwybr** | 34% ⬇ (cyfanswm o 50%) | 32% (cyfanswm o 31%) | 17% (cyfanswm o 11%) | 17% (cyfanswm o 8%) |
| **Effeithiolrwydd o ran bod o fudd i lwyddiant eich busnes** | 26% (cyfanswm o 30%) | 25% (cyfanswm o 34%) | 26% (cyfanswm o 18%) | 23% (cyfanswm o 18%) |


**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (255), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (53) **C14**. Beth yw eich barn am y cyhoeddusrwydd, yr hysbysebu neu'r wybodaeth yr ydych wedi'u gweld neu eu clywed am Lwybr Arfordir Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf, o ran…?

⬇⬆ Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

# Derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol

Dim ond 6% o fusnesau sy'n cofio iddynt gael cyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (o gymharu â 10% ar gyfartaledd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru i gyd).

**Y ganran (%) a dderbyniodd cyfathrebiadau uniongyrchol**





* Sylwer – mae'r maint sylfaen ar gyfer adrodd adborth ar y cyfathrebu uniongyrchol a dderbyniwyd yn rhy isel i'w ddadansoddi ar lefel ranbarthol.

**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (147) **C15.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru?

# Hyrwyddo'r llwybr gan fusnesau

Mae 50% o fusnesau yn rhanbarth Gwynedd yn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru mewn rhyw ffordd, gydag 16% yn nodi bod y llwybr yn cael ei grybwyll yn benodol yn eu deunyddiau marchnata. Mae 7% yn sôn am lwybr, ond nid yn ôl enw, ac mae 35% yn hyrwyddo'r llwybr ar lafar gwlad.

*** Sylwch – cwestiwn amlddewis oedd hwn, sy'n golygu na fydd y bariau'n cyrraedd 100%.**
Cyfrifwyd canran y busnesau sy'n hyrwyddo'r llwybr mewn rhyw ffordd drwy dynnu'r ganran sy'n dweud nad ydynt yn ei hyrwyddo (46%) a'r rhai sy'n ansicr (4%) o 100.





**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) **(147)** C17. A ydych chi'n sôn am neu'n hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yn unrhyw un o'ch deunyddiau marchnata eich hun, er enghraifft ar eich gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth siarad â'ch cwsmeriaid?

# Hyrwyddo'r llwybr gan fusnesau

Gofynnwyd i bob un o'r 33 busnes sy'n sôn am Lwybr Arfordir Cymru yn eu deunyddiau marchnata pa mor amlwg ydyw. Mae 39% o'r rhai yng Ngwynedd yn ystyried ei fod yn rhywbeth i gyfeirio ato wrth fynd heibio yn unig. Dywed 36% o bobl eraill y cyfeirir at rywfaint o fanylion yn eu deunyddiau marchnata. Mae'n elfen bwysig i 24%. Nid oes unrhyw fusnes yn ei ddisgrifio fel y brif thema.

**Amlygrwydd y llwybr mewn deunyddiau marchnata**





**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) sy'n sôn am y llwybr yn eu deunyddiau marchnata (33) **C18**. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor amlwg yw Llwybr Arfordir Cymru yn eich marchnata?

# Hyrwyddo'r llwybr

Mae 76% o fusnesau Gwynedd yn meddwl nad yw Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol. Dim ond 18% sy'n meddwl ei fod eisoes yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol.


**Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo…?**




**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (147) **C19**. Yn gyffredinol, a ydych chi'n meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo…?

# Annog ymweliadau


Cyflwynwyd pedwar gwelliant posibl i'r llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ddatgan i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno a oedd eu hangen. Mae 80% o fusnesau'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth / gwell gwybodaeth am sut i gael mynediad i'r llwybr mewn car. Yn ogystal, roedd 80% yn cytuno bod angen gwell darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, a 78% yn cytuno bod angen mwy o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) **(147)** C21. I ba raddau a ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – nid yw labeli data <3% yn dangos er taclusrwydd.

# Gwella mynediad


Pan ofynnwyd mewn cwestiwn agored pa welliannau sydd eu hangen i wella mynediad, y prif argymhelliad gan fusnesau yng Ngwynedd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yw gwella cysylltiadau trafnidiaeth (27%). Mae 21% yn awgrymu bod angen hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yn fwy ac mae 17% yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth gyffredinol. Yn gyffredinol, mae'r blaenoriaethu hwn yn unol â chanfyddiadau Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol.




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) **(147)** C22. Pa welliannau (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu mwy o gwsmeriaid/ymwelwyr i deithio o gwmpas neu i gael mynediad i'r llwybrau? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

# Gwybodaeth i gefnogi cwsmeriaid busnes / defnyddwyr llwybr

Mae'r wybodaeth a grybwyllir amlaf y mae busnesau'n credu y byddai eu cwsmeriaid yn ei chael fwyaf buddiol yn ymwneud â theithlenni cerdded (20%), cysylltiadau trafnidiaeth (18%), cylchdeithiau a theithiau cylchol (llwybrau) (18%) a mannau o ddiddordeb (16%) i gerddwyr. Mae'r tri awgrym uchaf yma hefyd yn cyd-fynd yn fras â chanfyddiadau Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol.




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Gwynedd (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) **(147)** C30. Pa fath o wybodaeth ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos

# Llwybr Arfordir Cymru - Gwynedd
## Casgliadau ac argymhellion



## Casgliadau

**Mae Llwybr Arfordir Cymru yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi busnesau lleol a hybu ymgysylltiad ymwelwyr.**
Mae 51% o fusnesau Gwynedd yn ystyried y llwybr yn bwysig i'w llwyddiant, a 42% yn adrodd am gynnydd mewn ymwelwyr a briodolir i'r llwybr. Yn ogystal, mae 57% o fusnesau yn elwa ar y ffaith fod o leiaf 1-10% o'u trosiant yn gysylltiedig â defnyddwyr y llwybr.

**Gall busnesau wella eu strategaethau marchnata i fanteisio ar y llwybr yn well.**
Mae 50% o fusnesau eisoes yn hyrwyddo'r llwybr, ond dim ond 24% sy'n ei ddisgrifio fel elfen bwysig o'u marchnata. Hefyd, mae 76% o fusnesau'n teimlo nad yw'r llwybr yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol.

**Gellir gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwella'r brandio i greu cydnabyddiaeth gryfach.**
Mae 69% o fusnesau yn ymwybodol o frandio'r llwybr, ond nid oedd 36% o'r ymatebwyr yn gallu cofio'r logo, a dim ond 4% a oedd yn cydnabod elfennau allweddol y logo fel y gragen.

## Argymhellion

**Cydweithio â busnesau lleol i greu "Pecyn Profiad Ymwelwyr Llwybr", bwndelu gweithgareddau, llety, a chynigion bwyta.**
Gall hyn annog mwy o ymgysylltiad gan ddefnyddwyr llwybr wrth ledaenu buddion economaidd yn lleol.

**Darparu pecynnau cymorth hyrwyddo i fusnesau sy'n cynnwys delweddau, templedi cyfryngau cymdeithasol a chynnwys adrodd straeon o ansawdd uchel.**
Eu hannog i ymgorffori'r llwybr yn fwy amlwg yn eu marchnata, gan amlygu sut mae eu cynigion yn cyd-fynd â phrofiad y llwybr.

**Atgyfnerthu adnabyddiaeth brand trwy ddylunio ymgyrchoedd cofiadwy, megis arwyddion rhyngweithiol ar hyd y llwybr sy'n clymu'r logo i nodweddion allweddol y llwybr.**
Defnyddio heriau cyfryngau cymdeithasol lle mae ymwelwyr yn rhannu lluniau gyda'r logo i gynyddu ymwybyddiaeth yn naturiol.

## Casgliadau

**Gall mynd i'r afael â materion hygyrchedd wella profiad yr ymwelydd yn fawr.**
Mae 80% o fusnesau'n cytuno bod angen gwell gwybodaeth am fynediad i geir, ac mae'r un gyfran yn cefnogi gwelliannau mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Mae anfodlonrwydd ynglŷn â hygyrchedd y llwybr hefyd yn 57%.

**Mae galw mawr am deithlenni cerdded, cylchdeithiau a llwybrau gyda gwybodaeth ychwanegol.**
Nododd busnesau deithlenni (20%), cylchdeithiau a llwybrau cylchol (18%), a manylion trafnidiaeth (18%) fel yr wybodaeth fwyaf buddiol i ddefnyddwyr y llwybr.

**Mae uchafbwyntiau'r haf yn gyfle ar gyfer hyrwyddo a digwyddiadau tymhorol.**
Mae gweithgarwch busnes ar ei uchaf yn ystod yr haf i 39% o fusnesau, sy'n awgrymu bod cyfle cryf i dargedu ymwelwyr yn ystod y cyfnod hwn.

## Argymhellion

**Creu canllawiau ymarferol gyda chysylltiadau trafnidiaeth, mannau parcio ceir, a manylion gwasanaeth gwennol.**
Gweithio gyda chynghorau lleol i wella hygyrchedd, yn enwedig mewn mannau mynediad allweddol i'r llwybr, a darparu arwyddion clir a chyson.

**Datblygu teithlenni y gellir eu lawrlwytho wedi'u teilwra i wahanol anghenion ymwelwyr, megis llwybrau sy'n addas i deuluoedd, llwybrau natur, neu deithiau diwylliannol.**
Cynnwys gwybodaeth ymarferol fel amcangyfrif o amseroedd cerdded ac atyniadau cyfagos i sicrhau cyfleustra ac ymgysylltiad.

**Cyflwyno ymgyrchoedd tymhorol, fel gwyliau haf neu deithiau cerdded tywys, sy'n ymgorffori atyniadau a busnesau lleol.**
Hyrwyddo'r digwyddiadau hyn trwy sianeli digidol, gan ddefnyddio'r llwybr fel y thema ganolog i ysgogi ymgysylltiad uwch.

# For more information

**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com

**Head office:** 3 Pavilion Lane, Strines, Stockport, Cheshire, SK6 7GH

**Leeds office:** Regus, Office 18.09, 67 Albion Street Pinnacle, 15th–18th Floors, Leeds, LS1 5AA

**+44 (0)1663 767 857 | djsresearch.co.uk**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path